OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2009 Rhif 456 (Cy. 47)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol, Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Chytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) (Diwygio) 2009

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006 ("Rheoliadau Ffioedd Deintyddol") (O.S. 2006/491 (Cy.60)), Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006 ("Rheoliadau GDS") (O.S. 2006/490 (Cy.59)) a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006 ("Rheoliadau PDS") (O.S. 2006/489 (Cy.58)).

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Ffioedd Deintyddol. Mae Rheoliad 3(a) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r cyfeiriad at argaenau yn y rhestr o gyferpynnau y caniateir codi ac adennill ffi Band 3 mewn cysylltiad â hwy ac a geir yn Atodlen 3 i Reoliadau Ffioedd Deintyddol er mwyn ei gwneud yn glir na chaniateir defnyddio ond argaenau wedi eu gweithgynhyrchu mewn labordy.

Mae Rheoliad 3(b) yn diwygio'r cyfeiriad at "bridges in other materials" (pontydd mewn deunyddiau eraill) yn y rhestr o gyferpynnau y caniateir codi ac adennill ffi Band 3 mewn cysylltiad â hwy ac a geir yn Atodlen 3 i Reoliadau Ffioedd Deintyddol, er mwyn ei gwneud yn glir pa ddeunyddiau y caniateir eu defnyddio.

Mae Rheoliadau 4 a 5 yn eu trefn yn diwygio Rheoliadau GDS a Rheoliadau PDS drwy ychwanegu,

yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hynny, weithgaredd deintyddol pellach i'w ddarparu o dan y contract neu'r cytundeb mewn cysylltiad â thriniaeth gadwraeth ar ddannedd cynradd claf sydd o dan 18 oed ar ddechrau cwrs o driniaeth, a bod y driniaeth honno'n denu 3.0 uned o weithgaredd deintyddol.

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn wedi ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn gan na fyddant yn effeithio ar gostau busnesau, elusennau neu gyrff gwirfoddol.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2009 Rhif 456 (Cy. 47)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol, Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Chytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) (Diwygio) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *03 Mawrth 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *04 Mawrth 2009* |
| *Yn dod i rym* | *26 Mawrth 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 61, 66, 125 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol, Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Chytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) (Diwygio) 2009 a deuant i rym ar 26 Mawrth 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn –

ystyr "Rheoliadau Ffioedd Deintyddol" (*"Dental Charges Regulations"*) yw Rheoliadau'r

(**1**) 2006 p.42.

Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006(**1**);

ystyr "Rheoliadau GDS" ("*GDS Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Cymru) 2006(**2**); ac

ystyr "Rheoliadau PDS" ("*PDS Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) 2006(**3**).

**Diwygiadau i Reoliadau Ffioedd Deintyddol**

**3.** Yn Atodlen 3 i Reoliadau Ffioedd Deintyddol (Ffioedd Band 3 - Darparu Cyferpynnau)—

(a) yn lle paragraff (a) rhodder—

"(a) laboratory fabricated porcelain or composite veneers, including acid etch retention"; ac

(b) ym mharagraff (m), ar ôl y gair "other" mewnosoder "non-metallic".

**Diwygio Rheoliadau GDS**

**4.** Yn Atodlen 2 i Reoliadau GDS (unedau o weithgaredd deintyddol), ym mharagraff 2, yn Nhabl B—

(a) o dan y cofnod olaf yn y golofn gyntaf (math ar gwrs o driniaeth sy'n esempt rhag ffi) ychwaneger y cofnod a ganlyn—

"Conservation treatment of deciduous teeth in a patient who is aged under 18 years at the beginning of a course of treatment"; a

(b) o dan y cofnod olaf yn yr ail golofn (unedau o weithgaredd deintyddol a ddarperir) ychwaneger y cofnod a ganlyn—

"3.0".

**Diwygio Rheoliadau PDS**

**5.** Yn Atodlen 2 i Reoliadau PDS (unedau o weithgaredd deintyddol), ym mharagraff 2, yn Nhabl B—

(a) o dan y cofnod olaf yn y golofn gyntaf (math ar gwrs o driniaeth sy'n esempt rhag ffi) ychwaneger y cofnod a ganlyn—

"Conservation treatment of deciduous teeth in a patient who is aged under 18 years at the beginning of a course of treatment"; a

---

(**1**) O.S. 2006/491 (Cy.60).
(**2**) O.S. 2006/490 (Cy.59).
(**3**) O.S. 2006/489 (Cy.58).

(b) o dan y cofnod olaf yn yr ail golofn (unedau o weithgaredd deintyddol a ddarperir) ychwaneger y cofnod a ganlyn—

“3.0”.

*Edwina Hart*

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

03 Mawrth 2009